HAF 2021

GWYBODAETH I DDYSGWYR

20 Mai 2021

Annwyl Ddysgwr

Canllaw i Ddysgwyr ar Gymwysterau 2021

Dyma ganllaw i gymwysterau 2021 - y cyfan sydd angen i chi ei wybod, i ddweud mwy wrthych am y trefniadau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol eleni.

Y broses apelio

Yr wythnos hon, rhannwyd gwybodaeth gyda'ch ysgol neu goleg am y broses apelio a sut y bydd yn gweithio eleni. Mae rhywfaint o wybodaeth am y broses apelio yn y Canllaw i Ddysgwyr, a byddwn yn cyhoeddi canllawiau manylach yr wythnos nesaf.

Ydych chi eisiau gwybod mwy?

Rydym yn cyhoeddi diweddariadau ar ein gwefan yn ogystal â phostio llawer o wybodaeth ddefnyddiol yn rheolaidd ar ein ffrydiau Facebook a Twitter a'n tudalen Instagram a lansiwyd yn ddiweddar.

Dweud eich Dweud.

Hoffem glywed eich barn am y broses asesu ar gyfer dyfarnu graddau eleni, ac mae gennym arolwg 'Dweud eich dweud' fel y gallwn ddeall eich safbwyntiau. Bydd yr arolwg yn ein helpu i wella sut rydym yn cyfathrebu â dysgwyr a bydd yn cau ar 6 Mehefin.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch anfon e-bost atom ar cyfathrebu@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir

Philip Blaker
Prif Weithredwr
Cymwysterau Cymru